

Rebecca Evans AC
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

4 Mehefin 2019

Annwyl Rebecca

Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

Ysgrifennaf atoch ymhellach i'ch llythyr dyddiedig **30 Ebrill 2019** ynghylch trafodaeth y Pwyllgor Cyllid o'r cynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Trafododd y Pwyllgor eich ymateb yn ei gyfarfod ar 23 Mai 2019 a nododd eich bod yn fodlon â'r cynnig posibl i ddiwygio'r Ddeddf drwy Fil dan arweiniad Pwyllgor. Roedd yr Aelodau yn croesawu eich awgrym y dylai'r cylch gorchwyl gynnwys ystyried unrhyw gynigion eraill sydd gan Swyddfa Archwilio Cymru mewn cysylltiad â chodi ffioedd ar gyfer gwaith a wneir ar gyfer Llywodraeth Cymru, y Cynulliad Cenedlaethol a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.

Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i sesiwn dystiolaeth **ddydd Iau 11 Gorffennaf, 11.10-11.55**, i drafod gwaith gweithredu'r Ddeddf hyd yma ac i edrych ar farn Llywodraeth Cymru ar gynigion i newid.

I lywio'r sesiwn hon, byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi cael cyflwyniad ysgrifenedig yn cyfeirio at **gylch gorchwyl** y Pwyllgor. Yn benodol, byddai'r Pwyllgor yn croesawu cael syniad o ran a yw Llywodraeth Cymru yn fodlon i Fil posibl dan arweiniad pwyllgor fynd i'r afael â'r ddyletswydd statudol a roddir ar Archwilydd Cyffredinol Cymru i osod copi o'r cyfrifon ardystiedig ac adroddiad o fewn pedwar mis ar ôl iddynt gael eu cyflwyno.

Efallai i chi gofio bod y Pwyllgor Cyllid wedi **adrodd** ar y cyfyngiadau o ran cael terfyn amser o bedwar mis pan roedd angen i'r Archwilydd Cyffredinol ardystio ac adrodd ar Gyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2015-16.

Yn ystod hynt Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, cytunodd y Cynulliad ar welliant sy'n rhoi hyblygrwydd i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno cyfrifon ac adroddiadau ardystiedig yr Ombwdsmon ar ôl y dyddiad cau o bedwar mis (**paragraff 18 o Atodlen 1**). Felly, hoffai'r Pwyllgor wybod beth yw eich barn ar sicrhau bod yr un hyblygrwydd yn cael ei roi i'r Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas â chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru.



Byddai'n ddefnyddiol cael eich ymateb erbyn 27 Mehefin 2019. Os bydd angen unrhyw eglurhad pellach arnoch, neu wybodaeth ychwanegol, cysylltwch â: Georgina Owen, Clerc y Pwyllgor, 0300 200 6372, SeneddCyllid@cynulliad.cymru.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Llyr', is centered on a light yellow rectangular background.

Llyr Gruffydd AC, Cadeirydd

